

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn rhithiol ar
Nos Lun 14eg o Chwefror, 2022 am 7.30 y.h.
Minutes of Trawsgoed Community Council held virtually on
Monday 14th February, 2022 at 7.30 p.m.

Presennol/Present: Cyng./Cllr. P. Bonner (Cadeirydd/Chairman)
Cyng./Cllr. P. Davies (tan 8.00 y.h.), Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. A. Evans,
Cyng./Cllr. H.M. Evans, Cyng./Cllr. J. George, Cyng./Cllr. E. Lewis, Cyng./Cllr. C. Lloyd-
Morgan, Cyng./Cllr. L. Owen.
Cynghorydd Sir/County Councillor M. Davies
Ymddiheuriadau / Apologies: Cyng./Cllr. A. Davies

- | | | |
|-----|---|--|
| 183 | Datgelu Buddiannau Personol
Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau. | Disclosure of Personal Interest
Members were reminded to declare an interest when discussing items. |
| 184 | Materion Personol
Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd John George ar ei law-driniaeth diweddar a hefyd cydymdeimlwyd gyda'r Cynghorydd George ar brofedigaeth diweddar o golli ei Fam-yng-Nghyfraith. | Personal Matters
Best wishes were conveyed to Councillor John George on his recent operation and condolences were also expressed to Cllr George on the recent passing of his Mother-in-Law. |
| 185 | Asesiad Risg ac Asedau
Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau. | Risk and Asset Assessment
There were no matters arising regarding Assets. |
| 186 | Cofnodion Cyfarfod Diwethaf
Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 10fed o Ionawr, 2022. Cynigiwyd cywirdeb gan Cyng. P. Davies ac eiliwyd gan Cyng. L. Owen.
Materion yn codi o'r Cofnodion | Minutes of the Last Meeting
The minutes of the last meeting, 10th January, 2022, were confirmed and accepted. Proposed by Cllr. P. Davies and seconded by Cllr. L. Owen.
Matters arising from the Minutes: |
| 187 | Y Clerc i ddilyn lan gyda'r materion isod sy'n parhau angen sylw gan Gyngor Sir Ceredigion: | The Clerk to follow up on the outstanding matters reported to Ceredigion County Council: |
| 188 | Llinellau gwyn ar y ffyrdd wedi eu paentio yn Cnwch Coch ond yn parhau angen gwneud o amgylch Llanafan. | The painting of White lines on the roads has been completed in Cnwch Coch but remains requiring attention at Llanafan. |
| 189 | Sefyllfa Dwr yn cronni ar ffordd ger y Gors yn parhau, cadw ar agenda. | Flooding on the road near New Cross is continuing, keep on the agenda. |
| 190 | Gwteri angen glanhau yn y lleoliadau canlynol: ar ben y Rhiw Cnwch Coch; ar y ffordd o Gnwch Coch i Gapel Cynon; Penffordd, y Gors i Lanfihangel-y-Creuddyn gwter wedi gorlenwi gyda drysni a'r dwr yn gorlifo ar y ffordd. | Overflowing gutters on the following roads: top of the hill out of the village of Cnwch Coch and along the road towards Capel Cynon; from Penffordd, New Cross towards Llanfihangel-y-Creuddyn the overgrown grass has caused water to seep on the road. |

191	Y ddrain ddŵr gyferbyn â Chapel Llanafan, wedi ei glanhau bellach.	The water drain opposite the Chapel at Llanafan has been cleared.
192	Parhau i ofyn i'r glanhawr ffordd ymweld a'r ffordd i fyny at Gapel Carmel, Cnwch Coch a hefyd y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan tuag at y B4340. Cytunwyd os na fyddid yn cael ymateb buan i'r cais gan Gyngor Sir Ceredigion byddid yn cysylltu gyda Llywodraeth Cymru i ymchwilio i weld beth yw'r broblem o ran ymateb wrth Gyngor Sir Ceredigion i'r cais.	Continuing to request for the road sweeper to attend to the road up to Capel Carmel, Cnwch Coch. Also the sweeper is needed on the road from the Old School, Llanafan towards the B4340. If no response is received soon from Ceredigion County Council it was decided to contact Welsh Government to investigate why there's no response to the request from the County Council.
193	Angen arwynebedd newydd ar y ffordd heibio Ysgol Llanfihangel-y- Creuddyn; y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan a heibio Maes Chwarae Maes y Felin;	Resurfacing the road passing the School at Llanfihangel-y-Creuddyn; road leading from the old School Llanafan towards Maes y Felin Playing Fields.
194	Shetin rhwng Brynafan a Llanafan parhau angen torri nol.	Hedge between Brynafan and Llanafan that needs cutting back still requires attention.
195	Glanhau y grid-anifeiliaid cyntaf ar y ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant.	The first cattle grid needs cleaning on the road from Llanfihangel-y-Creuddyn towards Trisant.
196	Sefyllfa'r ffordd yn rhoi ger Royal Oak, Llanafan.	Road subsiding near Royal Oak, Llanafan.
197	Llifogydd ar y ffordd ger Dolgelynen yn nhywydd garw. Y Cyngor Sir wedi ymholi am wybodaeth pellach o ran natur y broblem. Ymatebwyd i'r ymholiad yn nodi o bosibl fod angen pibenni dwr mwy o faint i gymryd yr holl ddŵr glaw sy'n llifo o'r caeau.	Flooding on the road near Dolgelynen during severe weather. The County Council requested further information of the nature of the problem. Response was given noting that possibly larger water pipes were needed to accommodate the substantial rain water running from fields.
198	Problem tyfiant yn Nantyrhaidd yn parhau, er y derbyniwyd ymateb wrth y Cyngor Sir ychydig wythnosau'n ôl bod y tyfiant o dan reolaeth ac y bydd Swyddogion yn cadw llygad ar y sefyllfa.	Overgrowth at Nantyrhaidd Stream continues to be a problem, although a response was received from the County Council a few weeks ago that the growth was under control and that the situation would be monitored by Officers.
199	Llifogydd mewn sawl lleoliad ar y B4340 rhwng Abermagwr a'r troad am Lanfihangel-y-Creuddyn ynghyd â sawl twll dwfn ar y darn yma o'r ffordd. Gwaith wedi gwneud mewn rhai lleoliadau – angen cadw llygad.	Flooding at several locations on the B4340 between Abermagwr and the junction for Lanfihangel-y-Creuddyn together with several deep holes on this stretch of road. Work has been undertaken at some locations, need to keep an eye on situation.

- 200 Casgliadau ail-gylchu, bwyd a gwastraff tŷ yn aml yn cael eu gadael heb gasglu yn Nhrawsgoed/Celt. Re-cycling, food and household waste are regularly left uncollected at Trawsgoed/Celt.
- 201 Y Cyngor Sir wedi gweithredu ar y ffordd o'r Castell tuag at Lanfihangel-y-Creuddyn, fel a nodwyd yn y cyfarfod diwethaf. County Council has rectified the problems arising on the road from the area known as Castle towards Llanfihangel-y-Creuddyn as reported at previous meeting.
- 202 Arwydd ffordd ger troad Glastir wedi adnewyddu. Road sign near the turning of Glastir has received attention.
- 203 Olwynion cerbydau parhau heb eu casglu tuag at yr A4120. Vehicle wheels to be collected after being fly tipped near to the A4120.
- Materion Cyllidol**
- 204 **Cyflog Clerc:** Penderfynwyd talu cyflog a chostau'r Clerc. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan. **Finance**
Clerk's Salary: It was resolved to pay the Clerk's salary and costings. Proposed by Cllr. L. Owen and seconded by Cllr. C. Lloyd-Morgan.
- £651.46 (Hydref 2021 – Mawrth 2022), £162.86 i HMRC (PAYE) a £39.62 costau'r clerc. £651.46 from (October 2021 – Mawrth 2022) £162.86 to HMRC (PAYE) and £39.62 clerk's expenses.
- 205 **Rhoddion:** Yn dilyn hysbysu'n y gymuned ac ar y we am geisiadau am nawdd ariannol o'r Cyngor Bro ac amodau Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2021-22 trafodwyd a chytunwyd ar y cyfraniadau canlynol: **Donations:** Following placing a notice in the community and on the website inviting applications for funding from the Community Council and conditions Section 137 (4) (a) of the Local Government Act 1972 Section 137 Limit Expenditure for 2021-22 the following donations were discussed and agreed upon:
- 206 £100.00: Radio Ysbyty Bronglais. Cynigiwyd gan Cllr. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. J. George. £100.00: Bronglais Hospital Radio. Proposed by Cllr. L. Owen and seconded by Cllr. J. George.
- 207 £150.00: Y Ddolen: Cynigiwyd y taliad gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. A. Evans. £150.00: Y Ddolen Payment proposed by Cllr. C. Lloyd-Morgan and seconded by Cllr. A. Evans.
- 208 £150.00: Ambiwllans Awyr Cymru Cynigiwyd gan Cyng. J. George ac eiliwyd gan Cyng. A. Evans. £150.00: Wales Air Ambulance Proposed by Cllr. J. George and seconded by Cllr. A. Evans.
- 209 £150.00 Beiciau Gwaed Cymru, Ceredigion. Cynigiwyd gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan. £150.00 Blood Bikes Wales, Ceredigion. Proposed by Cllr. L. Owen and seconded by Cllr. C. Lloyd-Morgan.

- 210 £200.00 HAHAV.
Cynigiwyd gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan.
- 211 **Tendr** (Datganodd Cyng. P. Bonner ddiddordeb wrth drafod ac ymadawodd y cyfarfod)
Cynigiwyd gan Cyng. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards i gymeradwyo derbyn tendr gan P. Bonner am y Gwaith isod.
£150 torri llwybrau Llwynprenteg, Pont Sigl, Ffordd Uchaf.
£180 Torri porfa Tir Comin, Llanfihangel-y-Creuddyn.
- 212 **Cau Cyfrif Banc:** Cadarnhaodd y Clerc yn dilyn cofnod 138 13eg Rhagfyr 2021 fod y cyfrif banc segur wedi cau gyda'r balans wedi trosglwyddo i'r Cyfrif Cadw.
- 213 **Gohebiaeth**
Cais am gyfraniad ariannol i gefnogi busnes lleol archebu diffibriliwr ar gyfer lleoli o fewn lleoliad preifat. Cytunwyd i beidio a chefnogi'r cais gan nad yw'r Cyngor Bro yn medru cefnogi'n ariannol busnes preifat neu unigolyn. Nodir fod diffibriliwr cyhoeddus wedi lleoli o fewn 2 filltir i'r safle a nodir yn y cais.
- 214 **Unrhyw Fater Arall**
Mae llinellau ffôn trigolion Brynafan a Llanfan wedi cael eu trosglwyddo i Lais Digidol heb yr opsiwn i wrthod y Gwasanaeth a deallir bod ardaloedd pellach o'r Gymuned ar fin derbyn y newid hwn yn eu Gwasanaeth. Mae hyn yn peri pryder gan fod y Gwasanaeth yn dibynnu ar bŵer trydan i weithio a chan nad oes signal ffon symudol yn rhai o'r ardaloedd fe allai olygu y gallai trigolion gael eu gadael heb unrhyw fath o fodd i gyfathrebu yn ystod toriadau trydan. Y Clerc i gysylltu ag Open Reach, BT, yr Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol i leisio pryder am iechyd a diogelwch trigolion pan yn arwain at y cam hwn.
- 215 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Nos Lun 4ydd Ebrill, 2022 am 7.30y.h.
- £200.00 HAHAV.
Proposed by Cllr. L. Owen and seconded by Cll. C. Lloyd-Morgan.
- Tendre** (Cllr. P. Bonner declared an interest during discussions and left the meeting)
Resolved by Cllr. A. Evans and seconded by Cllr. Sh. Edwards to approve arrangements for accepting the tendre for the following work.
£150 Path clearance Llwynprenteg, Pont Sigl, Ffordd Uchaf.
£180 Grass cutting Tir Comin, Llanfihangel-y-Creuddyn.
- Closure of Bank Account:** The Clerk reported following Minute 138, 13th December 2021 that the dormant bank account had now closed and balance transferred to the Current Account.
- Correspondence**
Request for financial contribution to support a local business purchase a defibrillator within a private location. It was agreed not to support the application as the Community Council cannot financially support a private business or individual. It is noted that a public defibrillator is located within 2 miles of the site referred to in the application.
- Any Other Business**
Residents of Brynafan and Llanfan have had their phone lines transferred to Digital Voice without the option to refuse the Service and it is believed that further areas of the Community is about to receive this change in Service. This is of concern as the Service relies on electricity power to work and as there is no mobile signal in some of the areas it could mean that residents would be left without any form of communication during electricity cuts. The Clerk to contact Open Reach, BT, Assembly Member and Member of Parliament to voice concern of the health and safety of residents resulting in this action.
- DATE OF NEXT MEETING**
Monday 4th April, 2022 7.30p.m.

